# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion o gyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd Ddydd Llun 20fed Rhagfyr 2010 yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. Cychwynnodd y cyfarfod am 10.30yb.

**PRESENNOL**

| Cynghorydd | Cynrychioli |
|---|---|
| S Frobisher (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| A M Jones (Is-Gadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| D Barratt | Cyngor Sir y Fflint |
| M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| G C Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| P C Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| T Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| E C George | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| G James | Cyngor Sir y Fflint |
| P Jeffares | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| D Mackie | Cyngor Sir y Fflint |
| A Minshull | Cyngor Sir y Fflint |
| T Roberts | Cyngor Gwynedd |
| M Thomas | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G O Williams | Cyngor Gwynedd |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); C Everett (Clerc i'r Awdurdod); K W Finch (Trysorydd i'r Awdurdod); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); C Hanks, P Claydon a R Simmons (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); R Fairhead (Rheolwr Hyfforddiant a Datblygu); G W Griffiths (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); G Brandrick (Uwch Reolwr Gweithrediadau); L Roberts (Rheolwr yr Ystafell Reoli); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol); C Dingle (Rheolwr Cyllid); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorlys, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau) a S Jones (Cynorthwyydd Cyswllt Aelodau).

YMDDIHEURIADAU

| Cynghorydd | Cynrychioli |
|---|---|
| L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| M Griffith | Cyngor Gwynedd |
| E M Jones | Cyngor Gwynedd |
| N M Jones | Cyngor Sir y Fflint |
| W Knightly | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| J V Owen | Cyngor Sir Ynys Môn |
| W P Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G Williams | Cyngor Sir Ddinbych |

1 RHYBUDD O FATERION BRYS

1.1 Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau wedi cael eu cyflwyno i'r Clerc am ystyriaeth.

2 DATGANIADAU O DDIDDORDEBAU

2.1 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb

3 COFNODION

3.1 Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod o'r Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 21ain Mehefin 2010 am gymeradwyaeth.

3.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod gwir a chywir o'r trafodion.**

3.3 Cyflwynwyd cofnodion Cymraeg cyfarfod o'r Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 21ain Mehefin 2010 am gymeradwyaeth.

3.4 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion Cymraeg fel cofnod gwir a chywir o drafodion cyfarfod 21ain Mehefin 2010.**

4 MATERION YN CODI

4.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

5 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

5.1 Roedd adroddiad y Cadeirydd yn rhestru'r cyfarfodydd a'r digwyddiadau oedd y Cynghorydd S Frobisher a'r Cynghorydd A M Jones wedi eu mynychu fel Cadeirydd ac Is-Gadeirydd rhwng 9fed Hydref a 10fed Rhagfyr 2010.

5.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

6 CYLLIDEB DDRAFFT 2011-12

6.1 Fe gyflwynodd y Trysorydd yr adroddiad oedd yn cyflwyno'r cynigion i'r Awdurdod parthed y gyllideb ddrafft ar gyfer 2011-12; y rhagolygon ar gyfer 2012-13 a 2013-14, a gosod y gyllideb refeniw drafft, arbedion potensial, y cyfraniadau dros dro oedd eu hangen gan yr Awdurdodau Cyfansoddol a'r rhaglen gyfalaf ddrafft.

6.2 Hysbyswyd yr Aelodau nad oedd y Gyllideb mewn Gwerth Gorau, Strategaeth Flynyddol Rheoli'r Trysorlys a'r Dangosyddion Darbodus wedi cael eu cyflwyno oherwydd cyfyngiadau amser ac y byddant yn cael eu cyflwyno yn hwyrach ymlaen.

6.3 Rhoddodd y Trysorydd grynodeb o'r penderfyniadau wnaed gan yr Aelodau yn y cyfarfod Arbennig ar 10fed Rhagfyr 2010. Yr opsiwn dewisol oedd rhewi'r gyllideb ar £32 miliwn dros y tair blynedd nesaf, fyddai mewn gwirionedd yn golygu arbedion ariannol o £2.4 miliwn, gostyngiad o 7.5% wedi ei ledaenu

dros y 3 blynedd. Mae hyn yn golygu gostyngiad o £800,000 yn y gyllideb ym mlynyddoedd 1, 2 a 3. Roedd Aelodau wedi cydnabod, er mwyn cyflawni'r arbedion, byddai'n rhaid cael newid yn y ddarpariaeth o wasanaeth ac y dylai'r arbedion ddod o becynnau ar draws y Gwasanaeth. Ym mlwyddyn 1, byddai'r mwyafrif o arbedion yn cael eu cyflawni drwy Adolygiad o Wasanaeth wrth gefn Swyddogion, prosiect cyfredol y cytunwyd arno'n flaenorol gan yr Awdurdod. Wedi ystyried yr opsiynau oedd ar gael, cytunodd yr Aelodau, ar gyfer blwyddyn 2 a 3, byddai'n rhaid dod o hyd i'r arbediad o filiwn ychwanegol drwy newid yn y gwasanaeth tân. Gofynnwyd am ragor o wybodaeth ar opsiynau gwahanol gan gynnwys 'newid yn y system dyletswydd' fyddai'n darparu'r arbedion gofynnol wrth gynnwys y lefel gyfredol o wasanaeth tân. Fodd bynnag, cydnabuwyd y byddai hyn yn golygu gorfod gostwng y nifer o swyddi diffoddwyr tân ac na fyddai'n bosib cyflawni hyn drwy ymddeoliadau neu gyfraddau ymadael naturiol. Yr arbedion eraill y cytunwyd arnynt oedd gostwng gwahanol linellau cyllideb; lleihau rhai swyddi yn y Gwasanaeth Cefnogi; cymryd £50,000 gan Ddiogelwch Tân Cymunedol; a pheidio ag ariannu digwyddiad blynyddol Cymdeithas y Diffoddwyr Tân Ifanc.

6.4 Yn nhermau'r cyfraniad gan awdurdodau cyfansoddol, fe eglurodd y Trysorydd fod posibilrwydd y byddai'r modd o gyfrifo amcangyfrifon y boblogaeth yn newid yn y dyfodol agos. Byddai'r awdurdodau cyfansoddol yn cael eu cynghori o'r cyfraniad fyddai ei angen cyn 30ain Rhagfyr 2010.

6.5 Cyfanswm y rhaglen gyfalaf ddrafft ar gyfer 2011/12 oedd £3.8 o wariant newydd a £5.7 oedd wedi ei rholio ymlaen i gynlluniau oedd wedi eu cymeradwyo eisoes. Mewn perthynas â chwestiwn am y rhaglen amnewid cerbydau, nododd y Dirprwy Brif Swyddog Tân fod adolygiad o'r rhaglen amnewid cerbydau yn gyfredol. Eglurodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân ei bod wedi cwrdd â Rheolwr y Fflyd ac wedi trafod maint y risg o ymestyn bywydau'r cerbydau ysgafn a rhai peiriannau. Cytunwyd i gadw'r faniau am flwyddyn ychwanegol a gohirio archebu'r peiriannau dŵr am flwyddyn ac felly gostwng y gost refeniw. Yr alldro amcangyfrifedig ar gyfer gwariant cyfalaf yn 2010/12 yw £5 miliwn ac fe gynigiwyd ariannu hyn drwy fenthyca.

6.6 Cododd y Cynghorydd George bryderon am y gyllideb gyfalaf ac os oedd arian ar gyfer prosiectau arfaethedig wedi'i glustnodi ar eu cyfer eisoes neu os fyddai angen benthyg arian i gynnwys y rhain yn y dyfodol ac os oes, fe ddylai'r Awdurdod ystyried ei gynlluniau yn y dyfodol yn ofalus. Fe eglurodd y Trysorydd fod y mwyafrif o'r arian ar gyfer y cynlluniau yma'n dod o fenthyca darbodus ar y farchnad agored yn hytrach na'u prydlesu fel oedd wedi cael ei wneud yn y gorffennol. Eglurodd y Prif Swyddog Tân fod y costau refeniw o'r rhaglen gyfalaf wedi ei hadeiladu i'r gyllideb refeniw, ac felly mae'r gyllideb refeniw arfaethedig yn cynnwys goblygiadau'r rhaglen gyfalaf.

6.7 Aeth y Prif Swyddog Tân rhagddo i egluro fod prosiect tridarn Wrecsam yn brosiect oedd wedi bod yn cael ei gynllunio er cryn amser, ar y cyd gyda gwasanaethau'r heddlu a'r ambiwlans. Er bod swm eithaf sylweddol o arian wedi cael ei wario ar y gwaith paratoi, does dim safle ar gyfer y prosiect eto. Oherwydd pwysau cyllidebol mae'r holl wasanaethau brys yn eu hwynebu, fe gynghorodd y Prif Swyddog Tan yr aelodau efallai byddai angen adolygu'r prosiect.

6.8 Roedd y Cynghorydd George yn fodlon cefnogi'r argymhellion a osodwyd yn yr adroddiad, fodd bynnag, teimlai os byddai angen gwneud newidiadau arwyddocaol i'r gyllideb cyn 15fed Chwefror, fe ddylai'r Awdurdod gael ei ailymgynnull, ac fe gytunodd Aelodau eraill gydag ef.

6.9 Fe hysbysodd y Clerc yr Aelodau am arian i BentrePryglon. Mae ei brif arian yn dod o'r awdurdodau cyfansoddol er mwyn talu i blant i ymweld â'r ganolfan. Yn 2009/10, gwnaeth yr Awdurdod un taliad i PentrePeryglon, fodd bynnag, dim ond cyfrannu drwy secondio staff mae fel arfer a chyfraniad bach arall at y costau rhedeg. Nodwyd bod cynllun ariannol cynaliadwy yn cael ei lunio ar gyfer PentrePeryglon ar hyn o bryd.

6.10 **PENDERFYNWYD**

**(i) cymeradwyo'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2011-12 a chytuno ar y lefel o ostyngiadau sydd i'w gwneud i'r gyllideb refeniw dros y tair blynedd ariannol nesaf;**

**(ii) cymeradwyo'r strategaeth sydd i'w dilyn er mwyn cyflawni'r arbedion ar gyfer 2011/12;**

**(iii) cytuno fod y strategaeth a osodwyd yn yr adroddiad yn cael ei dilyn i gyflawni'r arbedion yn 2012/13 a 2013/14;**

**(iv) cynghori'r Awdurdodau Cyfansoddol o'r cyfraniadau dros dro sydd eu hangen ar gyfer 2011-12;**

**(v) cymeradwyo'r rhaglen gyfalaf ddrafft ar gyfer 2011-12 a dulliau cysylltiedig o ariannu;**

**(vi) cytuno os fydd unrhyw newidiadau arwyddocaol i gyllideb 2011/12, byddai cyfarfod arbennig o'r Awdurdod yn cael ei ymgynnull. Bydd unrhyw fân newidiadau yn cael eu penderfynu gan y swyddogion mewn ymgynghoriad gyda'r Cadeirydd neu drwy'r Panel Gweithredol, o dan awdurdod dirprwyedig, yn ôl y galw.**

7 ALLDRO AMODOL 2010/11

7.1 Roedd yr adroddiad yn hysbysu'r Aelodau o'r alldro refeniw amodol amcangyfrifedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2010-2011. Mae'r tanwariant amcangyfrifedig o £105,123 yn cael ei rheoli yn y flwyddyn ac fe allai ffurfio rhan o'r cronfeydd ar gyfer 2011/12 er mwyn cynorthwyo i danategu cyllideb y flwyddyn nesaf. Felly, argymhellwyd fod Aelodau'n nodi'r tanwariant yn unig ar hyn o bryd.

7.2 Mae'r tanwariant amcangyfrifedig ar ddiffoddwyr tân rhan amser yn eithaf rhesymol ar £83,000. Hysbyswyd aelodau fod yr alldro amodol wedi ei selio ar lefelau gweithgaredd cyfredol sydd yn eithaf isel ac os oes nifer o ddigwyddiadau mawr dros y tri mis nesaf, yna gallai'r tanwariant newid yn orwariant yn hawdd.

7.3 Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd M Thomas am recriwtio diffoddwyr tân rhan amser, fe eglurodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol fod mwy o ddiffoddwyr tân rhan amser wedi cael eu recriwtio yn 2011-12 o gymharu gyda'r nifer oedd wedi gadael y gwasanaeth. Mae'r Gwasanaeth yn parhau i archwilio ei phrosesau recriwtio er mwyn eu gwella nhw.

7.4 Yn y man yma, fe hysbysodd y Prif Swyddog Tan yr Aelodau o'r gweithgaredd oedd wedi digwydd dros y penwythnos oherwydd y tywydd drwg. Roedd cyfleusterau wedi cael eu creu yn y Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd i alluogi sefydlu system Feistroli Arian ger y llawer gweithredol o fewn y Ganolfan Gyfathrebiadau ar y Cyd. Roedd hwn eto wedi amlygu'r manteision o fod wedi ein lleoli yn y Ganolfan Gyfathrebiadau ar y Cyd gyda'r heddlu ac wedi bod yn fanteisiol yn weithredol.

7.5 **PENDERFYNWYD nodi'r tanwariant amcangyfrifedig o £105,123.**

8 ADOLYGIAD PARTNERIAETHAU RHANBARTHOL

8.1 Hysbysodd y Clerc yr aelodau am yr Adolygiad Partneriaeth Rhanbarthol oedd wedi cael ei sefydlu gan gyrff y sector cyhoeddus yng Ngogledd Cymru er mwyn rhesymoli'r nifer o bartneriaethau a chyfarfodydd statudol. Yr Heddlu sy'n arwain yr adolygiad a bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei ddarparu yn y man.

8.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

9 DYDDIADAU CYFARFODYDD 2011

9.1 Darparwyd dyddiadau cyfarfodydd yr Awdurdod, Panel Gweithredol a Phwyllgor Archwilio ar gyfer 2011 i'r Aelodau.

9.2 **PENDERFYNWYD nodi'r dyddiadau ar gyfer y cyfarfodydd.**

10 COFNODION Y CYFARFODYDD

10.1 Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio gynhaliwyd ar 7fed Medi a chyfarfod y Panel Gweithredol gynhaliwyd ar 15fed Tachwedd er gwybodaeth.

10.2 **PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion.**

11 CYLCHGRAWN ER GWYBODAETH

11.1 Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Hanks y fersiwn diweddaraf o'r cylchgrawn.

11.2 **PENDERFYNWYD derbyn y cyhoeddiad.**